**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd:

7 Chwefror 2024

Annwyl Lesley,

Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024

Yn ein cyfarfod ar 29 Ionawr 2024, gwnaethom drafod Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024 (y Gorchymyn).

Byddwch yn ymwybodol bod ein hadroddiad ar y Gorchymyn yn cynnwys un pwynt technegol, a nododd fod nifer o achosion olyniaeth a ddygwyd gan unigolion ledled Cymru wedi'u gohirio ers mis Medi 2023 oherwydd y bu'n rhaid iddynt aros am y ffigurau newydd a ddarperir gan y Gorchymyn i ddatrys eu hawliadau.

Gwnaethom gydnabod, cyn i'r Gorchymyn gael ei ddrafftio, fod Llywodraeth Cymru yn aros am ddata perthnasol gan DEFRA. Fodd bynnag, fel y nodir ym Memorandwm Esboniadol y Gorchymyn, cafodd Llywodraeth Cymru y data hwn ar 13 Medi 2023. Nid yw'n glir pam, erbyn yr adeg y daeth y Gorchymyn hwn i rym, y gadawyd i bum mis arall fynd heibio heb fod unigolion yn gallu bwrw ymlaen â'u hachosion olyniaeth.

Yn ein cyfarfod ar 5 Chwefror 2024, gwnaethom drafod ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar y Gorchymyn. Dyma'r ymateb a gafwyd i'n pwynt adrodd technegol:

> *"Mae'r Llywodraeth wedi nodi pryderon y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Fodd bynnag, ni wnaeth Defra ddarparu'r data o ran Lloegr, sy'n llywio datblygiad y ddeddfwriaeth, tan 13 Medi 2023. Yna, defnyddiodd swyddogion Llywodraeth Cymru y data hyn i lunio'r ffigurau Cymreig perthnasol, gan gwblhau'r broses hon ar 18 Hydref 2023... Yna, mae'n rhaid i'r Gorchymyn fynd drwy'r broses graffu gyfreithiol arferol a all gymryd hyd at 12 wythnos. Gwnaed y*

*Gorchymyn ar 8 Ionawr ac fe'i gosodwyd ar 10 Ionawr 2024, cyn gynted ag y dychwelodd y Senedd ar ôl toriad y Nadolig."*

Efallai y byddwch yn gwerthfawrogi ein pryder fel Pwyllgor nad yw'r ymateb a gawsom ond yn rhoi amlinelliad sylfaenol o'r amserlen ar gyfer gwneud y Gorchymyn, tra mai'r hyn a geisiwyd wrth fynegi pryder yn ein hadroddiad oedd eglurhad o'r ffordd y gallai'r oedi fod wedi effeithio ar y bobl y mae eu hawliadau wedi'u gohirio. Ym Memorandwm y Gorchymyn, mae'r Gweinidog yn nodi bod chwe chais y byddai Gorchymyn newydd yn effeithio arnynt, fel ar 10 Ionawr 2024.

O ran yr amserlen a ddisgrifir yn ymateb Llywodraeth Cymru, nid yw'n glir inni pam y cymerodd y "broses graffu gyfreithiol arferol" bron 11 wythnos. At hynny, gyda phob parch, hoffem herio'r awgrym yn ymateb Llywodraeth Cymru ei bod wedi gorfod aros i'r Senedd ddychwelyd ar ôl y toriad cyn gosod y Gorchymyn. Fel y gŵyr y Gweinidog, caniateir i fusnes gael ei osod yn ystod y toriad.

Byddem yn croesawu eglurhad pellach o sut y ceisiodd Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag unrhyw effaith bosibl ar y chwe chais a ohiriwyd yn sgil oedi wrth wneud y Gorchymyn, ac a yw'r nifer honno'n parhau'n gywir.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn dydd Iau 22 Chwefror 2024.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd